

# HED AMSER

Mae'r cyfnod pan oedd dynion yn gwisgo oriawr boced yn eu gwasgod bellach yn perthyn i'r oes a fu. Ers yr amser hynny, fodd bynnag, mae ambell oriawr boced yn parhau i fod ym meddiant plant ac wyrion ein teidiau ac yn cael eu pasio i lawr i'r genhedlaeth nesaf.

Ers pymtheng mlynedd bellach, rwyf wedi bod yn ymddiddori yn yr oriorau poced hynny sydd ag enw'r gwneuthurwr ar yr wyneb neu ar y perfedd. Pan ddechreuais yr hobi ddiddorol yma rhaid oedd cael llyfryn y medrwn gyfeirio ato. Pa lyfr gwell felly na llyfr Iorwerth C. Peate, *Clock and Watchmakers in Wales*. Byddaf yn treulio orig ddifyr nawr ac yn y man yn pori yn llyfr Dr. Peate. Ceir ynddo restr o'r crefftwyr oedd yn gwneud clociau ac oriorau yn ôl eu cyfenw. Mae'r rhestr yn un helaeth gan gofnodi'r crefftwyr o Fôn i Fynwy hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif. Rhydd Iorwerth Peate fanylion am y clociau a'r oriorau sydd yn yr amgueddfa yn Sain Ffagan. Rhydd fanylion hefyd am y blynyddoedd y bu'r gwneuthurwr mewn busnes.

Mae fy nghasgliad i yn cynnwys oriorau o ddalgylch Porthmadog, megis R. Bonner Thomas (1840-1900), J. J. Reese, sef disgynnydd y Reeses o Fachynlleth ac, yn ddiddorol, Moses Thomas a symudodd i Gricieth o Ben-y-groes yn 1880. Mae'n cynnwys hefyd oriorau Caernarfon, Blaenau Ffestiniog a Phwllheli. Roedd Moses Thomas yn enghraifft o grefftwr a wnâi glociau ei hun hyd at 1880. Ar ôl hynny byddai'n prynu perfedd y cloc o ffatrioedd, ambell waith yn anghyflawn, eu

gwneud yn gyflawn a chael gwneud cas o goedyn yn lleol iddynt. Mae'n wir dweud yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg fod y 'gwir wneuthurwyr' yn prinhaus gyda'r rhan helaeth ohonynt wedi troi i fod yn farchnatwyr ac atgyweiriwyr.

Mae'n debyg mai'r dref fwyaf llewyrchus yn hanes clociau ac oriorau yng Ngogledd Cymru ydoedd Llanrwst. Mae crefftwyr megis Watkin a John Owen a Griffith Owen yn adnabyddus iawn i'r hanesydd. Gwelais y llynedd oriawr boced arian gan J. Jones o Lanrwst wedi ei gwneud yn 1812. Roedd y gwaith yn gywain dros ben a'r perfedd wedi ei addurno'n grefftus. Roedd yr oriawr mewn cyflwr rhagorol ac yn gweithio'n berffaith.

Rhaid bod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio'r gair 'gwneuthurwr' wrth sôn am oriawr boced. Mae rhai yn credu mai'r crefftwr sydd â'i enw ar yr oriawr oedd y gwneuthurwr. I'r gwrthwyneb, eglura Iorwerth Peate fod y siopau a werthai oriorau yn ystod ail hanner y ganrif ddiwethaf yn eu prynu o ffatrioedd ac yn rhoi eu henw eu hunain ar y perfedd — 'mass produced'! Mae sawl enghraifft o oriorau gyda chamsillafu arnynt e.e. *Tremadoc* (Tremadog) ar oriawr o oddeutu 1835, tystiolaeth mae'n debyg eu bod wedi eu harchebu gan wneuthurwr o Loegr. Hefyd, yn ystod blynyddoedd canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd llif o wneuthurwyr oriorau o'r cyfandir, llawer wedi mewnffurfio o'r Almaen yn dilyn y gwrthryfel yno yn 1848, o'r Eidal a Ffrainc. Enghraifft leol o



hyn yw oriawr o Gaergybi gyda'r enw 'Kleiser' arni.

Ar ddechrau'r degawd a gychwynnodd ym 1870 daeth Robert Hughes yn Langollen â nifer o grefftwyr o Coventry i Langollen a sefydlu ffatri yno yn gwneud oriorau. Cychwynnodd Robert Hughes ei fusnes yn Rhosymedre ym 1864 a phan fu farw ym 1895 roedd ugain o ddynion yn gweithio yn y ffatri yma, a byddai yntau a'i feibion yn marchnata'r oriorau ar hyd lled Cymru. Mae'n wir dweud felly bod y mwyafrif o oriorau a werthwyd yng Nghymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi cael eu gwneud yn Llangollen.

Wrth werthu oriawr byddai'r siopwr hefyd yn rhoi papur crwn ar ochr fewnol y cas. Gelwir y papur yma yn 'watch case paper'. Roedd enw'r siop arno yn ogystal â manylion am yr hyn a oedd ar werth yn y siop, megis modrwyau ac ati. Mae casgliad helaeth iawn o'r 'watch case papers' yma yn Sain Ffagan. Maent bellach dros gant oed ac felly ychydig ohonynt sydd i'w gweld y tu allan i'r amgueddfa.

Arferiad arall i hysbysebu'r siop oedd gwerthu goriadau i weindio'r gwerthu goriadau i gwneuthurwr a'r cyfeiriad arno. Yn fy nghasgliad mae enghreifftiau o oriadau R. Bonner Thomas, Portmadoc; J. J. Reese, Portmadoc; E. Francis, Carno a D.L. Jones, Pwllheli.

Os ydych yn ffodus o fod yn berchen oriawr o'r oes a fu, ac am fynd ati i'w harchwilio gallwch ddilyn y cyfarwyddiadau canlynol i ddod o hyd i'r enw:

Rhaid agor wyneb yr oriawr o'r tu blaen. Ar ôl agor hwn rhaid pwysu botwm a welir o dan y rhif chwech. Wrth ei bwysu i mewn daw perfedd yr oriawr yn rhydd o'r cas yn ei grynsyth.


Ar ôl codi'r caead sy'n

rhwystro llwch rhag mynd i'r perfedd gellir gweld a oes enw arno.

Rhaid cofio bod miloedd o oriorau wedi eu gwneud heb unrhyw enw o gwbl arnynt. Fe welir arnynt tua phum rhif, y naill ar y perfedd a'r llall ar y cas. Os yw'r rhifau yn cyfateb mae hyn yn cadarnhau fod y cas a'r perfedd yn perthyn i'w gilydd. Hynny yw, nad oes neb wedi rhoi perfedd un oriawr mewn cas oriawr arall.

Gan fod pob oriawr arian ac aur wedi gorfod mynd trwy'r broses o dderbyn 'hallmark' gellir rhoi blwyddyn bendant i'r oriawr gan fod i bob blwyddyn ei llythyren ei hun.

Yn ystod yr ugain mlynedd



Papur cas.

diwethaf mae miloedd o oriorau wedi cael eu malu er mwyn gwerthu'r cas am werth yr aur a'r arian. Mae cannoedd wedi eu gwerthu i wledydd eraill hefyd ac felly prin iawn ydi'r oriawr boced sydd mewn cyflwr da, yn gweithio'n berffaith ac sydd ag enw arni.

Eglurais ar y cychwyn fod yr oriawr boced yn perthyn i'r oes a fu ond mae fy nghasgliad i o oriorau, 'watch case papers' a goriadau, yn sicrhau fod cyfnod o hanes y ganrif ddiwethaf a berthynai i ogledd Cymru yn cael ei anfarwoli ac nid â'n angof.

GLYN E. ROBERTS  
Porthmadog

